Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGOR TREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar nos Lun, 24 Mawrth 2014 am 7:00 p.m.

PRESENNOL: Cyng. Rosie Hughes-Moseley (**Maer - Cadeirydd**)
Cyngr. Stephen Beach, James Bryan, Bob Costain, Elisabeth Culshaw, Sioned Foulkes, Ken Hawkins, Menna Jones, Robert Owen Ellis, Anne Roberts, Geraint Woolford ac Emrys Wynne; hefyd Bobby Feeley, Cynghorydd Sir.

202. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gyngr. June Derry, Simeon Jones a Katy Morgan Williams.

203. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd Cyng. Emrys Wynne, fel Is-gadeirydd ac Ymddiriedolwr i'r Corff hwn, ddiddordeb yn y canlynol a gadawodd y siambr yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ddilynodd.
Cof. Rhif 225 – Cais am Gymorth Ariannol – Menter Iaith Sir Ddinbych.

204. CYMORTH LLIFOGYDD RHUTHUN CYFYNGEDIG

Derbyniwyd cyflwyniad byr gan Gadeirydd y Cwmni Cyfyngedig uchod, Parch Stuart Evans, a throsglwyddodd siec i'r Maer am **£9,250.76** sef gweddill yr arian yn y cyfrif uchod, gaiff yn awr ei gau. Clustnodir yr arian yn briodol yng nghyfrifon Cyngor Tref i'w defnyddio er budd preswylwyr Glasdir. Diolchodd i aelodau'r cyhoedd am eu cyfraniadau hael.

205. YR HEDDLU

Derbyniwyd Adroddiad Yr Heddlu gan Reolwr Rhawd Gymunedol newydd dros Rhuthun a'r cylch. Dywedodd wrth yr aelodau fod lleihad o 2.7% wedi bod mewn troseddau a gofnodwyd i gymharu â'r amser yma llynedd. Yr oedd 181 trosedd yn ardal Rhuthun gyda 47% o'r rhain wedi eu canfod. 'Roedd 13 o droseddau ers dechrau 2014 yn bennaf troseddau siopladrad a chyfanswm o 156 o ddigwyddiadau gwrth gymdeithaso hyd yma. Cyfeiriodd at barcio - Cyngor Sir Ddinbych sydd yn rhoddi tocynnau ar linellau melyn tra bod Yr Heddlu yn delio gydag atal dianghenraid ar balmentydd a chyffordd ayyb ond nid ar linellau melyn. Rhoddwyd 15 o docynnau yn y ddau fis diwethaf ar gyfer gyrru gwrth gymdeithasol (yn bennaf ar Heol y Parc). Diolchwyd iddo gan y Maer.

206. ADRODDIAD Y MAER

Dywedodd y Maer ei bod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

Ras Grempog
Undeb Credyd Gogledd Cymru

207. ADRODDIADAU AELODAU

Cyng. Stephen Beach	Cinio Dydd Gŵyl Dewi Sant, Ras Grempog, Y Gofeb, Undeb Credyd Gogledd Cymru, Cymdeithas Cynghorau Trefi a Chymunedau Mwyaf Gogledd Cymru, Ailagor Corporation Arms o dan enw a rheolaeth newydd.
Cyng. James Bryan	Pwyllgor Rheolaeth Canolfan Awelon, Gŵyl Rhuthun x 2, Yr Heddlu parthed Gŵyl Rhuthun.
Cyng. Bob Costain	Ailagor Corporation Arms o dan enw a rheolaeth newydd.
Cyng. Sioned Foulkes	Ffrindiau Cae Ddol.
Cyng. Ken Hawkins	Eglwys Sant Pedr parthed Paneli Solar
Cyng. Menna Jones	Ailagor Corporation Arms o dan enw a rheolaeth newydd, Llwybr Celf Gymunedol Rhuthun, Corff Llywodraethol Ysgol Borthyn, Banc Bwyd.

Cyng. Robert Owen Ellis	Menter Iaith yn Ninbych, Banc Bwyd x 4, Ailagor Corporation Arms o dan enw a rheolaeth newydd.
Cyng. Anne Roberts	Ymlaen Rhuthun, Banc Bwyd, Cymdeithas Cynghorau Trefi a Chymunedau Mwyaf Gogledd Cymru, Ailagor Corporation Arms o dan enw a rheolaeth newydd.
Cyng. Geraint Woolford	Siambr Fasnach Rhuthun, Tîm y Dref.
Cyng. Emrys Wynne	Ailagor Corporation Arms o dan enw a rheolaeth newydd.

208. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2014.*

209. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

210. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2014.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

211. PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2014.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

212. ENWEBIADAU AR GYFER MAER A DIRPRWY FAER

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried enwebiadau ar gyfer Maer a Dirprwy Faer am 2014 / 2015. Enwebwyd Cyng. Stephen Beach yn Faer am 2014 / 15 gan Cyng. Menna Jones wedi ei eilio gan Cyng. Anne Roberts. Enwebwyd Cyng. Anne Roberts yn Ddirprwy Faer gan Cyng. Elisabeth Culshaw wedi ei eilio gan Cyng. Geraint Woolford.

213. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

(a) PWYLLGOR URDD CYLCH RHUTHUN

Cyflwynodd Clerc y Dref Gais am Gymorth Ariannol gan y Mudiad uchod.
***PENDERFYNWYD**: gwneud cyfraniad o £200.00 i'r Mudiad yma.*

(b) CWILTWYR DYFFRYN CLWYD

Cyflwynodd Clerc y Dref Gais am Gymorth Ariannol (ynghyd â Chyfrifon Ariannol) ar gyfer arddangosfa i'w chynnal ym mis Medi 2014.
***PENDERFYNWYD**: gwneud cyfraniad o £100.00 i'r Mudiad yma.*

(c) CYMDEITHAS Y SEFYDLIAD, CASTELL RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am Gymorth Ariannol yn dilyn cyflwyniad y mis diwethaf.
***PENDERFYNWYD**: cefnogi'r syniad mewn egwyddor ond yn analluog i gefnogi'n ariannol hyd nes bod yr union gefnogaeth ddaw o CADW a Chadwyn Clwyd yn wybodus.*

214. Y RHYFEL MAWR - CANMLWYDDIANT 1914

Gofynnwyd i'r aelodau drafod y mater yma - mae Gwasanaeth Arbennig wedi ei drefnu yn Eglwys Sant Pedr ar fore Sul, 3ydd Awst 2014 am 10:30 a.m.
***PENDERFYNWYD**: trefnu cyfarfod gyda Warden Sant Pedr, Y Lleng Brydeinig Frenhinol a Mr Geraint Owain i drafod y mater ymhellach.*

215. LLWYBR CELF GYMUNEDOL RHUTHUN

Cyflwynodd Clerc y Dref e-bost, ynghyd â rhestr yswiriant o waith celf, gan Michael Nixon, MN Arts Associates a gofynnwyd i'r aelodau ystyried lefel addas o yswiriant ar gyfer yr eitemau yma.
***PENDERFYNWYD**: i yswirio'r holl eitemau HEBLAW'r '22 ffigwr, Arwydd Cofadail' a'r 'Pyst - gwerth yr eitemau ar gyfer yswiriant fydd £61,400.00*

216. PLWYFI TREF RHUTHUN
Derbyniodd yr aelodau holiadur oddi wrth y Mudiad uchod a gofynnwyd iddynt eu cwblhau.

217. ASESIAD RISG FLYNYDDOL
Cyflwynodd Clerc y Dref Asesiad Risg Flynyddol ar lafar gafodd ei thrafod a'i chytuno mewn cyfarfod diweddar o'r Is-bwyllgor Archwilio Ariannol.
***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r Asesiad Risg Flynyddol.*

218. STRATEGAETH BUDDSODDIAD BLYNYDDOL
Cyflwynodd Clerc y Dref Strategaeth Buddsoddiad Blynyddol y Cyngor Tref.
***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r Strategaeth Buddsoddiad Blynyddol.*

219. TÎM Y DREF
Cyflwynodd Clerc y Dref gais gan Gyngor Sir Ddinbych i ddal y swm o £1,000.00 hyd nes derbynnir eu hawdurdod i dalu hyn i Dîm y Dref pan yr apwyntir Trysorydd.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau'r cas ac i glustnodi'r arian yn y Cyfrifon Blynyddol.*

220. SYSTEM SBWRIEL X2 – CASGLIADAU GWASTRAFF GARDD
Derbyniodd yr aelodau wybodaeth am gasgliadau gwyrdd gardd Cyngor Sir Ddinbych.

221. DYDDIAU 'PARCIO AM DDIM'
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried dyddiadau 'parcio am ddim' i'r dref - mae **PUM** diwrnod parcio ar gael ar sail blwyddyn galendr.
***PENDERFYNWYD**: gofyn am 'ddyddiadau parcio am ddim' i: Dydd Sadwrn, 5ed/l Gorffennaf (Gŵyl Rhuthun) a Sadyrnau 6ed, 13eg a 20fed Rhagfyr fel diwrnodau Siopa Nadolig – y diwrnod ychwanegol i'w bennu yn ei bryd.*

222. DIGWYDDIAD NODDWYD GAN JCB
Derbyniodd yr aelodau fanylion am ddigwyddiad wedi ei noddi gan JCB yn mynd drwy Rhuthun ar brynhawn Dydd Mawrth, 20fedMai 2014.

223. UNDEB CREDYD GOGLEDD CYMRU
Cyflwynodd Clerc y Dref gadarnhad am fuddsoddiad cychwynnol o £70,000 (saith deg mil o bunnoedd) gyda'r Mudiad uchod, gydag ychwanegiad o £10,000 (deg mil o bunnoedd) i'w wneud yn dilyn derbyn arian Cyfrif Busnes Wrth Gefn o Nat West.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y manylion a chadarnhau buddsoddiad ychwanegol o £10,000 i wneud cyfanswm o **£80,000.00** (wyth deg mil o bunnoedd).*

224. RHUTHUN – TREF FARCHNAD Y DYFODOL
Cyflwynodd Clerc y Dref e-bost oddi wrth Matthew Jones, Pensaer, Coombs Jones, sydd yn dymuno cynnwys y prosiect uchod fel un o'u astudiaethau nodwedd mewn datganiad i'r wasg.
***PENDERFYNWYD**: cytuno i'r cais yma.*

225. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at hybu defnydd o'r Gymraeg yn Rhuthun – mae £500.00 yn y gyllideb ar gyfer y Mudiad yma.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau'r cyfraniad blynyddol o £500.00 i'r Mudiad yma.*

226. LLWYBR CELF GYMUNEDOL RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau fel cywir anfoneb i'w dderbyn gan Gyngor Sir Ddinbych yn y swm o £7,500.00 parthed y Llwybr Celf uchod - mae'r swm eisoes yn y gyllideb.

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau'r anfoneb fel cywir.*

227. CYNLLUN GWELLA BLAEN SIOP

Derbyniodd yr aelodau fanylion a gofynnwyd iddynt ystyried dau gais o dan y cynllun uchod:

1. Huw & Vanessa Jones parthed Tudor Mane.

Pedwar amcan bris am ffensio a gwaith sylfaen. Ar sail yr isaf o'r amcan brisiau byddai Grant o £845.00 yn daladwy.

2. Elwyn Edwards parthed Canolfan Ymwelwyr Rhuthun

Tri amcan bris am ffensio a gwaith sylfaen. Ar sail yr isaf o'r amcan brisiau byddai uchafswm grant o £1,000.00 yn daladwy.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r ceisiadau uchod.*

228. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 28ain Chwefror 2014

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

229. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:*

D.U.	B.T.	Teliffon	*	103.60
530	Undeb Credyd Gogledd Cymru	Buddsoddiad		70,000.00
531	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
532	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		177.47
533	Fineline Printing & Stationery Ltd	Eitemau swyddfa	*	8.03
534	Viking	Stoc flynyddol o bapur gwyn / lliw	*	240.13
535	Y Bedol	Hysbyseb parth Dinesydd Da		20.00
536	Comisiynydd Gwybodaeth	Ffi Cofrestru - Cofrestr Amddiffyn Data		35.00
537	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych	Adnewyddu aelodaeth		15.00
538	Pwyllgor Urdd Eisteddfod Rhuthun	Cyfraniad		200.00
539	Cwiltwyr Dyffryn Clwyd	Cyfraniad		100.00
540	Undeb Credyd Gogledd Cymru	Buddsoddiad ychwanegol		10,000.00
541	Menter Iaith Sir Ddinbych	Cyfraniad		500.00
542	Cyngor Sir Ddinbych	Llwybr Celf Gymunedol Rhuthun		7,500.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £73.63)

230. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref fel Nos Lun, 28 Ebrill 2014.